



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion

Fflapiau ac Impiadau Croen

Adran Dermatoleg

Fflapiau ac Impiadau Croen

Mae llawdriniaeth wedi'i threfnu ar eich cyfer, a allai olygu defnyddio fflap neu impiad croen. Mae'r rhan fwyaf o lawdriniaethau ar y croen yn creu clwyfau bach, sydd yn cael eu cau drwy bwytho ymylon y croen yn ôl at ei gilydd. Weithiau nid yw hyn yn bosibl, pan fo'r clwyf yn fawr, neu pan fo mewn rhan o'r corff heb lawer o groen ychwanegol. Dan yr amgylchiadau hyn, defnyddir fflap neu impiad croen i gau'r clwyf, sydd fel arfer yn cael ei wneud dan anesthetig lleol. Mae taflen wybodaeth ar wahân ar gael ar anesthetig lleol.

Beth yw impiad croen?

Darn o groen yw impiad croen sy'n cael ei gymryd o un rhan o'r corff (y safle rhoi) a'i ddefnyddio i lenwi clwyf mewn man arall (y safle derbyn). Mae croen yn cael ei dynnu o rannau o'r corff lle mae croen sbâr. Gall hyn fod o flaen, neu y tu ôl i'r glust, neu'r ysgwydd. Defnyddir y rhannau corff hyn gan eu bod yn hawdd eu pwytho at ei gilydd eto ar ôl tynnu'r croen. Caiff impiadau'r croen eu pwytho i mewn i'r clwyf a chaiff y pwythau eu tynnu fel arfer saith diwrnod yn ddiweddarach.

Beth yw peryglon neu gymhlethdodau impiad croen?

Mae impiad croen yn arwain at ddau glwyf yn lle un.

Er y gwneir pob ymdrech i baru'r croen, gall impiad sefyll allan o'r croen o'u hamgylch.

Mae'r impiad croen yn dibynnu ar y clwyf am ei gyflenwad gwaed ac yn achlysurol iawn gall hyn fethu ac mae'n bosib y bydd angen ail-wneud yr impiad.

Gall osgoi ysmegu ar ôl impiad croen helpu i leihau'r risg o fethiant yr impiad croen.

Mae'r risg o fethiant yn cynyddu'n sylweddol os ydych yn ysmegu ar ôl y llawdriniaeth. Dylech osgoi ysmegu am 7 diwrnod.

Fel gydag unrhyw driniaeth lawfeddygol, gall impiadau a fflapiau croen arwain at waedu a/neu haint.

Beth yw fflap croen?

Yn ei hanfod, mae fflap croen yn golygu defnyddio croen o amgylch y clwyf i'w gau. Mae angen nifer o doriadau o amgylch y croen i'w dynnu er mwyn symud y croen i'w safle newydd a chau'r clwyf. Mae fflapiau croen fel arfer yn cyfateb yn dda i groen y

clwyf gan roi canlyniadau cosmetig da. Gellir eu defnyddio lle na fyddai digon o waed ar gael ar gyfer impiad croen.

Ble caiff fflapiau croen eu defnyddio fel arfer?

Mae fflapiau croen yn cael eu defnyddio gan amlaf ar yr wyneb.

Beth yw peryglon neu gymhlethdodau fflapiau croen?

Prif anfantais fflap croen yw bod angen mwy o doriadau sydd weithiau yn eithaf mawr. Gwneir pob ymdrech i wneud yn iawn am y toriadau hyn drwy eu rhoi yn y llinellau croen naturiol.

Gall fflapiau gael eu heintio neu gwaedu fel unrhyw llawdriniaeth croen arall. Weithiau bydd y fflap croen yn torri lawr. Mae hyn yn arwain at amser gwella hirach a gall olygu mwy o greithio.

Gall osgoi ysmegu ar ôl triniaeth fflap croen helpu i leihau'r risg o fethiant yr impiad croen.

Beth os byddaf yn penderfynu nad wyf am gael fflap croen?

Defnyddir impiadau a fflapiau croen ddim ond lle na all ochrau croen y clwyf gael eu pwytho at ei gilydd. Gall clwyfau gael eu gadael i wella ar eu pennau eu hunain neu gael eu pwytho'n rhannol ond gall hyn arwain at graith fwy amlwg.

Pa mor fuan fydda i'n cael fy ngweld eto ar ôl triniaeth fflap?

Fel arfer, rydym yn hoffi gweld pob claf sydd wedi cael triniaeth fflap croen 5-7 diwrnod ar ôl y llawdriniaeth. Fel arfer, tynnir y pwythau a gall y meddyg wirio nad oes unrhyw broblemau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am impiadau neu fflapiau croen nad ydynt yn cael eu hateb gan y daflen wybodaeth hon, holwch y meddyg sy'n mynd i ymgymryd â'ch llawdriniaeth.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**